Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
Shared Services Partnership
Student Awards Services

# Gwaharddiadau/Tynnu'n Ôl/Dychwelwyr/Mamolaeth/Estyniadau

## Cwestiynau Cyffredin

### Adrannau:

1. Absenoldeb Mamolaeth
2. Gwaharddiadau / Tynnu'n Ôl
3. Dychwelyd i Astudio
4. Estyniadau



Mehefin

| Cwestiynau | | Yr Ymateb |
|---|---|---|
| **Absenoldeb Mamolaeth** | | |
| | Rydw i newydd ddarganfod fy mod i'n feichiog, beth sydd angen i mi ei wneud ynglŷn â'm cyllid GIG Cymru? | **Cofrestru cyn y cwrs**<br><br>Os bydd myfyriwr sydd eisoes wedi cael lle ar gwrs cyn-gofrestru yn beichiogi cyn i'r cwrs ddechrau, dylent gysylltu â'r brifysgol i gael cyngor ynghylch a fyddai'n well dechrau'r hyfforddiant fel y cynlluniwyd neu ohirio dechrau'r cwrs tan ddyddiad diweddarach.<br><br>**Ar ôl cofrestru ar y cwrs**<br><br>Os bydd myfyriwr yn beichiogi ar ôl dechrau ei gwrs, dylai roi gwybod i'w tiwtor cyn gynted â phosibl a rhoi gwybodaeth i'r brifysgol ynghylch dyddiad cyrraedd disgwyliedig y babi.<br><br>Unwaith y bydd yr absenoldeb mamolaeth wedi'i gytuno a'i awdurdodi, dylai'r Brifysgol hysbysu'r Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr. |
| | Sut ydw i'n trefnu Absenoldeb Mamolaeth? | Mater i'r myfyriwr a'r brifysgol yw cytuno pryd y dylai'r absenoldeb awdurdodedig ar gyfer absenoldeb mamolaeth ddechrau. Dylid ystyried ei iechyd ei hun ac iechyd y babi, a'r adeg ar y cwrs pan fyddai orau i ddechrau'r absenoldeb.<br><br>Dylai'r myfyriwr roi cadarnhad o'r beichiogrwydd i'r brifysgol cyn dechrau absenoldeb mamolaeth (fel arfer trwy ddefnyddio’r ffurflen swyddogol MAT B1). |
| | Rwyf ar fin mynd ar Absenoldeb Mamolaeth – Sut fydd hyn yn effeithio ar fy Mwrsariaeth GIG Cymru? | Gall bwrsariaeth mamolaeth fod yn daladwy am uchafswm o **52 wythnos**. Yn ystod yr absenoldeb mamolaeth awdurdodedig, byddwch yn gymwys i dderbyn yr un taliadau dyfarniad bwrsariaeth ag yr oeddech yn eu derbyn cyn i’ch absenoldeb ddechrau, oni bai bod ailasesiad oherwydd newid i’ch amgylchiadau.<br><br>Mae dyfarniad mamolaeth yn cynnwys pob elfen o'r wobr bwrsari ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â phresenoldeb gwirioneddol ar y cwrs. Mae’r elfennau hyn yn cynnwys:<br><br>(a) Treuliau yn Sgil Lleoliad Ymarfer, a<br>(b) Lwfans Gofal Plant, a’r<br>(c) Elfennau hynny o'r Lwfans Myfyriwr Anabl sy'n ymwneud â phresenoldeb ar y cwrs yn unig.<br><br>**Os yw eich absenoldeb mamolaeth yn parhau i'r flwyddyn academaidd nesaf, bydd gofyn i chi ail-ymgeisio am eich bwrsari er mwyn i'r taliadau barhau am weddill y cyfnod absenoldeb y cytunwyd arnynt.** |

| | | |
|---|---|---|
| | A allaf wneud cais am lwfansau ychwanegol ar ôl i'r plentyn gael ei eni? | Gallwch, unwaith y bydd y plentyn wedi'i eni a'ch bod yn gallu darparu tystiolaeth ddogfennol lawn, gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein a diweddaru eich cais gyda'r manylion perthnasol.<br><br>Tra byddwch ar Absenoldeb Mamolaeth, ni fyddwch yn gymwys i wneud cais am Lwfans Gofal Plant. |
| | Rwyf ar absenoldeb mamolaeth a hoffwn ohirio fy nychweliad i hyfforddiant. Beth sydd angen i mi ei wneud? | Mae bwrsari mamolaeth ond yn daladwy am uchafswm o 52 wythnos. Os penderfynwch ymestyn eich absenoldeb, dylai eich Prifysgol roi gwybod i ni pan fydd y cyfnod mamolaeth yn newid i ohiriad dros dro. Ar ddiwedd yr absenoldeb mamolaeth a ganiateir, bydd y taliadau bwrsariaeth yn dod i ben nes i ni dderbyn cadarnhad gan eich prifysgol eich bod yn dychwelyd i astudio.<br><br>Dylid nodi, os yw'r myfyriwr yn penderfynu **tynnu'n ôl yn barhaol** a pheidio â dychwelyd i'r cwrs ar ddiwedd ei absenoldeb mamolaeth, bydd yn rhaid iddo ad-dalu'r bwrsari a dderbyniwyd tra ar absenoldeb mamolaeth awdurdodedig. Ar ôl cadarnhau, bydd y Brifysgol yn cysylltu â'r myfyriwr i drafod cynllun ad-dalu. |
| | **Wedi Gohirio Dros Dro / Wedi Tynnu'n Ol yn Barhaol** | |
| | Rydw i wedi penderfynu gohirio fy astudiaethau. Beth fydd yn digwydd i'm bwrsari? | Os penderfynwch ohirio o'ch cwrs dros dro, dylai eich Prifysgol hysbysu'r Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr a chadarnhau manylion eich gohiriad.<br><br>Os caiff eich cais ei Gymeradwyo ar adeg y gohiriad, bydd eich dyfarniad yn cael ei ailgyfrifo ar gyfer yr amser yr oeddech yn bresennol. Bydd Hysbysiad o Ddyfarniad diwygiedig yn cael ei gynhyrchu ar eich cyfrif ar-lein.<br>Bydd eich prifysgol yn derbyn amserlen  dalu wedi'i diweddaru.<br><br>Dylai eich prifysgol gysylltu â chi'n uniongyrchol i gadarnhau a oes gordaliadau neu dandaliadau wedi digwydd. |
| | Rydw i wedi tynnu'n ôl o fy nghwrs. Beth fydd yn digwydd i'm bwrsari? | Os penderfynwch dynnu'n ôl yn barhaol o'ch cwrs, dylai eich Prifysgol hysbysu'r Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr a chadarnhau manylion eich gohiriad.<br><br>Os caiff eich cais ei Gymeradwyo ar adeg y gohiriad, bydd eich dyfarniad yn cael ei ailgyfrifo ar gyfer yr amser yr oeddech yn bresennol. Bydd Hysbysiad o Ddyfarniad diwygiedig yn cael ei gynhyrchu ar eich cyfrif ar-lein.<br>Bydd eich prifysgol yn derbyn amserlen  dalu wedi'i diweddaru.<br><br>Dylai eich prifysgol gysylltu â chi'n uniongyrchol i gadarnhau a oes gordaliadau neu dandaliadau wedi digwydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rydw i wedi tynnu'n ôl o fy nghwrs, a ydw i'n atebol i ad-dalu bwrsariaeth yn unol â Thelerau ac Amodau GIG Cymru? | Na, ni fydd myfyrwyr o dan Delerau ac Amodau GIG Cymru, sydd wedi tynnu'n ôl yng nghanol cwrs, yn atebol i wneud ad-daliad.<br><br>Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol o'r canlynol:<br><br>a) Drwy beidio â chwblhau eich cwrs ni fyddwch yn gymwys i gael eich cofrestru i weithio fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.<br>b) Os ydych chi'n fyfyriwr blwyddyn olaf sy'n tynnu'n ôl ac yn cwblhau eich cwrs yn rhywle arall, yn ddiweddarach, byddwch chi'n gyfrifol am ad-dalu'r ffioedd rydych chi wedi'u derbyn |
| | Rydw i wedi gohirio fy astudiaethau ond dal i dderbyn taliad bwrsariaeth.<br><br>Beth ddylwn i ei wneud? | Dylech gysylltu ag adran gyllid eich Prifysgol i drafod<br><br>y taliad a dderbyniwyd. Efallai mai dyma'r taliad olaf sy'n ddyledus cyn i'ch gohiriad ddechrau<br>neu efallai bod oedi wedi bod cyn<br>derbyn neu brosesu'r gohiriad a'r taliad. Efallai y gofynnir i chi ad-dalu'r rhandaliad i'r Brifysgol. |
| **Dychwelyd i Astudio:** | | |
| | Rwy'n dychwelyd i'r cwrs ar ôl seibiant i'm hastudiaethau. Beth sydd angen i mi ei wneud? | Os ydych chi'n dychwelyd i'ch cwrs ar ôl seibiant i'ch astudiaeth, bydd angen i'ch prifysgol hysbysu'r Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr. Ar ôl ei derbyn, cysylltir â chi trwy e-bost i ailymgeisio. |
| | Sut bydd<br><br>y bwrsariaeth wedi'i gyfrifo ar fy nychweliad? | Bydd eich dyfarniad yn cael ei adfer o'r pwynt y gwnaethoch chi ohirio'n flaenorol, er enghraifft: os cawsoch 8 mis o fwrsariaeth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2, cyn eich gohiriad, byddwch yn gymwys ar gyfer y 4 mis sydd ar ôl o'r bwrsariaeth a fydd yn daladwy pan fyddwch yn dychwelyd. |
| **Estyniadau** | | |
| | Mae angen i mi gynnal astudiaeth ailadroddus, sut alla i wneud cais am gyllid ychwanegol ar gyfer hyn? | Dim ond lle mae amgylchiadau esgusodol y gallwn ystyried cyllid ar gyfer astudiaeth ailadroddus. Os oes amgylchiadau eithriadol, bydd angen i'ch prifysgol gyflwyno cais i Addysg a Gwella Cymru i gymeradwyo cyllid ailadroddus.<br><br>Os cytunir ar estyniad, efallai y bydd angen cais newydd yn dibynnu ar hyd yr estyniad. Bydd Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr yn eich cynghori. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Os na chytunir ar yr estyniad, bydd gofyn i chi ariannu astudiaeth ailadroddus eich hun. |
| | Beth fyddai'n cael ei dderbyn fel | |

| | | |
|---|---|---|
| | amgylchiadau esgusodol? | Gall enghreifftiau o amgylchiadau esgusodol fod yn afiechyd neu brofedigaeth.<br><br>Caiff pob cais am estyniad ei adolygu fesul achos. Mewn rhai achosion, bydd angen rhagor o wybodaeth a thystiolaeth ategol arnom i wneud penderfyniad ffurfiol. |
| | Rydw i wedi methu un modiwl academaidd ac mae angen i mi ail-astudio. A allaf i dderbyn cyllid ar gyfer hyn? | Yn anffodus, na, ni fyddem yn gallu derbyn methiant academaidd fel amgylchiad eithriadol. Byddai gofyn i chi ariannu'r ail-astudiaeth sy'n ofynnol eich hun. |
| | Rydw i newydd orffen blwyddyn o ail-astudio fel myfyriwr allanol (hunan-ariannu). Sut mae modd ailgychwyn fy mwrsariaeth? | Bydd eich prifysgol yn hysbysu'r Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr eich bod yn dychwelyd i fwrsariaeth y GIG. Bydd gofyn i'r myfyriwr wneud cais ar gyfer y garfan a'r flwyddyn astudio y maent yn dychwelyd iddi. |